**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie


Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

Fel y gwyddoch, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ynni ('y Memorandwm') wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') i'w drafod. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 15 Medi 2023.

Yn eich llythyr at y Llywydd, dyddiedig 29 Mehefin 2023, yn nodi'r rhesymau dros yr oedi wrth osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydych yn nodi bod "hyd a chymhlethdod y Bil wedi arwain at yr angen am ddadansoddiadau hir a manwl o'r polisi a'r safbwynt cyfansoddiadol". Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i drafod y Memorandwm, byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu unrhyw ddadansoddiad â ni ynghylch a fydd darpariaethau'r Bil mewn perthynas â Chymru yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi ynni/newid hinsawdd yn y dyfodol sy'n diwallu anghenion Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 30 Awst 2023 fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.